**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19eg Gorffennaf 2004 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 11:10 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Hannam | Cyngor Sir Ddinbych |
| N Hugh-Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Attridge (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| G A Jones (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Swyddog Prosiectau); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| D D Millar | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| N Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd na dderbyniodd y Clerc unrhyw eitemau i'w hystyried. Gofynnodd y Cynghorydd W J Chorlton i'r Awdurdod gael y diweddaraf am y sefyllfa o ran y trafodaethau am y cytundeb cyflog ac amodau'r gwasanaeth rhwng y cyflogwyr ac Undeb yr FBU. Dywedodd y Cadeirydd ei fod o'r farn y dylid rhoi'r wybodaeth dan fusnes Rhan II oherwydd natur gyfrinachol yr wybodaeth a fyddai'n cael ei datgelu.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Cafodd yr aelodau wybod bod y Dirprwy Brif Swyddog Tân Peter Coles wedi ymddeol yn swyddogol ar 18fed Gorffennaf 2004. Roedd y Cadeirydd wedi estyn dymuniadau gorau'r Awdurdod i Mr Coles yn ystod ei swper ymddeol ar 18fed Mehefin 2004 ac wedi cyflwyno decanter gwydr iddo fel arwydd o werthfawrogiad yr Awdurdod o'i wasanaeth a'i waith

ii. Rhoddwyd croeso cynnes i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân newydd, Mr Chris Enness, a oedd wedi dechrau ar ei waith ar 12fed Gorffennaf ac a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Awdurdod Tân. Cyflwynwyd Mr Enness, a oedd yn gweithio cynt i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Essex, i'r aelodau a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd

iii. Llongyfarchwyd y Cynghorydd J A Roberts ar gael ei ethol yn ddiweddar yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2004/05

iv. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu o hyn ymlaen lunio a dosbarthu adroddiad yn rhoi gwybod am ei alwadau ers y cyfarfod blaenorol o'r Awdurdod. Byddai'r adroddiad yn cynnwys unrhyw gynadleddau a chyfarfodydd cenedlaethol y bu iddo eu mynychu ac yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a datblygiadau

v. Cafodd yr aelodau wybod bod dwy seminar wedi cael eu trefnu gyda golwg i gyflwyno a hysbysu aelodau hen a newydd ar y materion dan sylw a'r datblygiadau sy'n wynebu'r gwasanaeth tân. Trefnwyd y seminar gyntaf ar gyfer dydd Iau 2il Medi 2004 i holl aelodau awdurdodau tân yng Nghymru a byddai'n cael ei chynnal yn Llandrindod. Byddai'r seminar arall yn arbennig ar

gyfer aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru a hwnnw wedi drefnu ddydd Mercher 29ain Medi 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl. Byddai'r aelodau'n cael rhagor o wybodaeth maes o law

vi. Roedd y Pwyllgor Gwerth Gorau i gynnal ei gyfarfod nesaf ddydd Iau 26ain Awst 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl am 10:30 y bore

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2004

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2004
iii. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 22ain Ebrill 2004
iv. cyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 13eg Mai 2004
v. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2004
vi. cyfarfod y Panel Penodiadau a gynhaliwyd ar 4ydd Mehefin 2004

## 5) Materion yn codi

Roedd y materion yma'n codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân a'r Panel Gweithredol *(Lwfansau i aelodau Awdurdodau Tân)***: I ateb ymholiad gan y Cynghorydd W J Chorlton ar y sefyllfa bresennol o ran cyflwyno cynllun lwfansau i aelodau awdurdodau tân, dywedodd y Cadeirydd fod dirprwyaeth o'r Awdurdod wedi cyfarfod â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth y Cynulliad, Ms Sue Essex AC, yn Llandudno ar 29ain Ebrill 2004. Yn ystod y cyfarfod buont yn trafod yr oedi wrth roi'r cynllun ar waith a nifer o faterion eraill oedd yn y rheoliadau drafft lle roedd gan yr Awdurdod amheuon. Cynhaliwyd cyfarfod arall yng Nghaerdydd rhwng y Gweinidog ac aelodau Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru lle pwysleisiwyd i'r Gweinidog yr anfodlonrwydd a'r dadrithiad gyda'r modd roedd yr holl fater wedi cael ei reoli. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am fynd gyda'r aelodau i'r ddau gyfarfod ac am ei gefnogaeth barhaus ar y mater. Yn y cyfamser daeth yn amlwg y byddai'n fis Hydref cyn i'r rheoliadau gael eu rhoi gerbron sesiwn lawn o'r Cynulliad i'w cymeradwyo er bod y Gweinidog wedi rhoi'r argraff y byddai'r Rheoliadau wedi cael eu cymeradwyo cyn torri am wyliau'r haf. Oherwydd y datblygiad yma roedd y Cadeirydd wedi penderfynu ysgrifennu at y Gweinidog gyda chopi i Brif Weinidog y Cynulliad, i gofrestru ei siomiant enbyd; darllenodd y llythyr i'r aelodau. Roedd rhai o'r aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod ysgrifennu at Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) i gwyno am yr oedi afresymol gan y Cynulliad wrth fynd i'r afael â'r mater

yma. Dywedodd y Clerc fod y pwerau dros faterion o'r fath eisoes o fewn cylch gwaith y Cynulliad ac felly nid oedd talu'r lwfansau'n ddibynnol ar i'r Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Awgrymodd i'r aelodau mai da o beth efallai fyddai holi Aelodau lleol o'r Cynulliad ac arweinydd newydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) am eu cymorth ar y mater yma. Roedd yr aelodau'n cytuno a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - anfon copi o lythyr y Cadeirydd at y Gweinidog, dyddiedig 6[ed] Gorffennaf 2004,at yr holl Aelodau Cynulliad lleol ac at arweinydd newydd yr CLlLC i ofyn am eu cymorth i fynd ar ôl y mater yma***

**Cofnodion y Panel Gweithredol 22[ain] Ebrill a 24[ain] Mai 2004 *(Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub)*:** Dywedodd y Clerc fod popeth wedi distewi yn dilyn "y cam Pwyllgor" o'r Mesur yn Nhŷ'r Arglwyddi tan yr wythnos flaenorol pan gynhaliwyd y "cam adroddiad". Roedd trydydd darlleniad y Mesur yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi ei drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau y byddai'r Mesur yn mynd yn ôl i Dŷ'r Cyffredin petai yna ddim gwrthwynebiadau na gwelliannau; petai'n mynd drwy'r cam olaf yn Nhŷ'r Cyffredin heb gael ei gyfeirio'n ôl i Dŷ'r Arglwyddi gallai dderbyn Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd yr wythnos a dechrau'r toriad am wyliau'r haf. Rhestrodd y Clerc nifer o bwyntiau lle roedd yr Arglwyddi wedi cynnig gwelliannau ar ran yr Awdurdod, ac roedd y rhain yn cynnwys gwrthwynebu rhoi pwerau i'r Cynulliad i benodi aelodau i'r awdurdodau tân. Roedd yr Arglwyddi hefyd wedi lobïo i lwfansau i aelodau Awdurdodau Tân, unwaith y byddent yn daladwy, i fod yn bensiynadwy yn yr un modd â'r lwfansau i gynghorwyr sir a bwrdeistrefi sirol. Roedd y Llywodraeth wedi gwrthod ystyried darpariaeth o'r fath dan y Mesur hwn, ond wedi dweud y gellid ei ystyried dan ddeddfwriaeth wahanol a fyddai efallai'n dilyn wedi adolygiad yn yr hydref. Hefyd, dywedodd y Clerc wrth yr aelodau ei fod wedi drafftio gwelliant i'r Arglwyddi eu cynnig yn ystod y trydydd darlleniad o'r Mesur y diwrnod canlynol. Roedd y gwelliant yn gwneud rheidrwydd i ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth cyn i'r Cynulliad benodi unrhyw aelodau i wasanaethu ar awdurdodau tân yng Nghymru. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau nad oedd yn hyderus o lwyddiant yn yr holl faterion y buwyd yn lobïo yn eu cylch, ond er hynny, roedd yn teimlo mai cwrtais o beth fyddai i'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Arglwyddi oedd wedi gweithredu ar ran yr Awdurdod i ddiolch iddynt am eu hymdrechion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am yr holl waith roedd wedi ei wneud ar y Mesur, am lobïo'r Arglwyddi, am fynychu'r Tŷ yn bersonol i friffio aelodau'r Arglwyddi, am baratoi nodiadau areithio ar gyfer aelodau Tŷ'r Arglwyddi ac am ei friffio ef yn gyson am hynt y Mesur. Hefyd, mynegodd werthfawrogiad y ddau awdurdod tân arall yn Nghymru iddo am ymgymryd â'r gwaith lobïo ar ran holl awdurdodau tân Cymru. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Arglwyddi oedd wedi cynorthwyo'r Awdurdod wrth i'r Mesur fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi i fynegi gwerthfawrogiad yr Awdurdod iddynt am eu hamser a'u hymdrech ar ei ran***

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân a'r Panel Gweithredol *(Hen Orsaf Dân Llanfairfechan)*:** I ateb cwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Tân na fu unrhyw ddatblygiadau mawr eraill o safbwynt safle hen Orsaf Dân Llanfairfechan.

## 6) Datganiad ar Gyfrifon 2003/04

Cyflwynodd y Trysorydd, yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996, y Datganiad ar Gyfrifon Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn ariannol 2003/04 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau. Esboniodd y byddai'r Cyfrifon yn cael eu cyhoeddi, petai dim newidiadau mawr yn cael eu gwneud i'r Datganiad o Gyfrifon rhwng y cyfarfod hwn a chymeradwyaeth yr Archwiliwr. Ar y llaw arall, petai gan yr Archwiliwr amheuon mawr am y Datganiad fel y cyflwynwyd, byddai hynny'n cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Awdurdod. Aeth y Trysorydd yn ei flaen i esbonio bod y cyfrifon yn dangos mwy o danwariant nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Ei gyngor i'r Awdurdod oedd neilltuo'r hyn oedd yn weddill, am y tro, rhag ofn y byddai gofyniad i ad-dalu unrhyw arian pontio a ddeuai; er nad oedd unrhyw gyllid o'r fath wedi ei dderbyn hyn yn hyn. Esboniodd y Prif Swyddog Tân nad oedd yn dal yn eglur a fyddai'r Awdurdod mewn gwirionedd yn derbyn unrhyw arian o'r fath. Atebodd y Trysorydd gwestiynau'r aelodau am wahanol agweddau ar y cyfrifon a chadarnhaodd bod yr Awdurdod, trwy wneud cais am arian pontio, wedi gallu lleihau'r cyfraniad roedd yn gofyn amdano gan yr awdurdodau cyfansoddol, ar gyfer blwyddyn ariannol 2004/05, o £382, 381. Yna:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r Datganiad ar Gyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2004***

## 7) Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2003/04 a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2003/04 a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2004/05. Rhestrodd y gwahanol bwyntiau oedd yn yr adroddiad ac esboniodd fod union nifer y dyddiau archwilio a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith wedi bod ychydig yn uwch nag a fwriadwyd ond roedd hynny'n digwydd yn eithaf aml. Roedd llai o ddyddiau archwilio wedi eu neilltuo ar gyfer y gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2004/05 oherwydd roedd strategaeth newydd yn golygu y byddai archwiliadau'n cael eu gwneud yn y dyfodol ar sail asesiadau risg. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2003/04 a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2004/05***

## 8) Rheolaeth Drysoryddol

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ac esboniodd fod raid iddo, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod yn

Rhagfyr 2003 i fabwysiadu Côd Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Lleol a Chyfrifon (CIPFA) ar Reolaeth Drysoryddol, adrodd i'r Awdurdod ynghylch y gweithgarwch trysoryddol am y flwyddyn flaenorol ac unrhyw newidiadau yn neddfwriaeth Rheolaeth Drysoryddol. Esboniodd y Trysorydd fod y gwaith rheolaeth Drysoryddol yn ymdrin ag arian yr Awdurdod cyn mynd ymlaen i dynnu sylw at nifer o faterion oedd yn ei adroddiad a gwneud cais i'r Awdurdod, yn dilyn cyngor roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ei gael gan eu Hymgynghorwyr Rheolaeth Drysoryddol, i gymeradwyo rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon buddsoddi fel a restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

i. ***nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheolaeth Drysoryddol am 2003/04; a***
ii. ***cymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon fel a restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad***

**9) Dirprwyo Pwerau i'r Prif Swyddog Tân**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r nod o gael yr Awdurdod i gytuno i adolygiad o'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân. Aeth yn ei flaen i esbonio bod raid adolygu dirprwyaethau presennol, a oedd wedi hel ar hap dros amser, oherwydd moderneiddio'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd datblygiadau diweddar megis diddymu Adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 a chymeradwyo'r Cynllun Integredig Rheoli Risg, ynghyd â gwneud Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub yn ddeddf cyn bo hir yn golygu bod nawr yn amser priodol i adolygu'r dirprwyaethau hyn. Dywedodd y Clerc fod y Panel Gweithredol wedi trafod y dirprwyaethau arfaethedig yn ei gyfarfod ar 22ain Ebrill 2004 ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r dirprwyaethau diwygiedig fel a nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad. Felly:

***Penderfynwyd*: - cymeradwyo'r newidiadau i'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân fel a nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad**

**10) Canlyniadau'r Arolwg o Farn y Cyhoedd**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am ganfyddiadau'r arolwg o farn y cyhoedd a gynhaliwyd rhwng Hydref 2003 ac Ionawr 2004 ar fodlonrwydd y cyhoedd gyda'r ffordd roedd yr Awdurdod yn gweithredu. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn beth calonogol fod gan y cyhoedd cystal barn o bolisi dwyieithog a strategaeth diogelwch tân cymunedol yr Awdurdod. Roedd rhai aelodau eraill wedi cael eu calonogi gan y farn a roddwyd am faterion cydraddoldeb. Roedd y Prif Swyddog Tân yn cyd-fynd â theimladau'r aelodau na ddylai'r Awdurdod gael ei weld yn bod yn hunanfodlon yn dilyn cystal canlyniadau ac y dylai barhau i gefnogi materion diogelwch tân, yn enwedig

oherwydd rhai o'r canfyddiadau a oedd i'w gweld yn dangos llai o ymwybyddiaeth o rai meysydd yn ymwneud â diogelwch tân yn y cartref. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r sylwadau a wnaed a phrif ganfyddiadau'r arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd 2003/04***

**11) Cwynion a Llythyrau o Werthfawrogiad**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd. O'r 26 cwyn a ddaeth, 16 a brofwyd. Yn ystod yr un cyfnod daeth 48 llythyr o werthfawrogiad i law. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod yr adroddiad, a gyflwynwyd yn flynyddol, yn categoreiddio a chrynhoi y gwahanol fathau o lythyrau, er gwybodaeth i'r aelodau. I ateb cwestiwn gan yr Is-Gadeirydd ynghylch a oedd yr Awdurdod yn dod ar draws unrhyw broblemau penodol o ran y cerbydau brys oedd yn torri'r cyfyngiadau cyflymder wrth ymateb i alwadau brys, dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod gan yr Awdurdod weithdrefnau lleol mewn lle gyda'r Heddlu i ymdrin â digwyddiadau o'r fath pan fyddent yn digwydd.

***<u>Penderfynwyd</u>: -nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd***

**12) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad a'r rhifyn presennol o'r cylchgrawn "Er Gwybodaeth" (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau. Ymddiheurodd am nifer o wallau yn y fersiwn Gymraeg a sicrhaodd yr aelodau fod camau wedi cael eu cymryd i sicrhau na fyddai gwallau o'r fath yn digwydd mewn rhifynnau yn y dyfodol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y cylchgrawn***

**13) Materion Brys**

Roedd trafodaeth ar yr eitem a dderbyniwyd i'w chynnal dan fusnes Rhan II.

**14) Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau mai dyddiadau'r cyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn dyfodol, yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod, fyddai dydd Llun 20$^{fed}$ Medi 2004, dydd Llun 20$^{fed}$ Rhagfyr 2004, dydd Llun 21$^{ain}$ Mawrth 2005 a dydd Llun 20$^{fed}$ Mehefin 2005; gyda'r un olaf yn Gyfarfod Blynyddol. Byddai'r cyfarfodydd oll yn dechrau am 10:30 y bore. Byddai'r aelodau'n cael gwybodaeth am leoliadau'r cyfarfodydd cyn gynted ag y byddent ar gael. Hefyd, dywedodd y byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod naill ai ddiwedd Awst neu'n gynnar ym

mis Medi. Unwaith y byddai'r dyddiad a'r lleoliad wedi eu cadarnhau byddai aelodau'r Panel Gweithredol yn cael eu hysbysu.

Yna, dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod gweddill yr eitemau busnes ar yr agenda heb y cyhoedd a'r Wasg yn bresennol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt***

**<u>RHAN II</u>**

**13) Materion Brys**

**Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth:** Er budd aelodau newydd yr Awdurdod rhoddodd y Prif Swyddog Tân grynodeb o'r anghydfod a'r Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth. Aeth yn ei flaen i roi gwybod i'r Awdurdod bod yr ail gam o archwiliad gwirio'r Comisiwn Archwilio ar hynt Awdurdod Tân Gogledd Cymru, o ran y Cytundeb, wedi ei gwblhau yn ddiweddar. Roedd y canfyddiadau rhagarweiniol yn ffafriol ac yn dangos bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd pellach. Byddai canfyddiadau'r Comisiwn maes o law yn cael eu hadrodd i'r Panel Gweithredol. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod Undeb yr FBU, yn ei gynhadledd adalw y mis blaenorol, wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb ac wedi ymroi i ofyn barn ei aelodau ar weithredu diwydiannol ysbeidiol os na ellid cael cytundeb trwy Gyngres yr Undebau Llafur (TUC) erbyn 30ain Gorffennaf 2004. Yr unig bwnc lle na ellid cael cytundeb oedd mater yr "amser sefyll i lawr" ("*stand down time*"). Yna, cafodd yr aelodau eu briffio ar yr wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth ynghylch yr ymateb roedd y cyflogwyr yn dymuno ei roi i unrhyw weithredu diwydiannol swyddogol neu answyddogol. Atebodd y Prif Swyddog Tân a'r Clerc gwestiynau'r aelodau ar y materion a godwyd. Holwyd a ddylid dilyn yr un weithdrefn wrth ymdrin ag ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau ynghylch unrhyw anghydfod ag a ddefnyddiwyd yn ystod yr anghydfod blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau o blaid mabwysiadu'r un weithdrefn. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau am farn ac ymateb yr Awdurdod i unrhyw weithredu diwydiannol i'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ymateb ar ran yr Awdurdod***

Addawodd y Cadeirydd godi rhai o'r materion a gododd yr aelodau yn ystod y drafodaeth pan fyddai'n mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyflogwyr Cenedlaethol. Roedd yr aelodau'n teimlo nad oeddynt, oherwydd nad oedd ganddynt aelod o'r Awdurdod ar unrhyw gorff cenedlaethol, yn cael gwybodaeth bwysig am faterion megis y negodi. Gan fod Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi trefnu cyfarfod y dydd Gwener canlynol roedd yr aelodau o'r farn y dylid

ceisio cael cydgytundeb gyda'r awdurdodau tân eraill yng Nghymru er mwyn i gynrychiolydd o bob Awdurdod Tân wasanaethu ar o leiaf un o'r cyrff cenedlaethol.  Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - y dylid gwneud sylwadau fod Cadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cael ei enwebu i wasanaethu ar naill ai un o'r cyrff cynrychioliadol canlynol, neu arnynt oll: Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; y Cyngor Partneriaeth ac fel y cynrychiolydd Cymreig ar Gorff y Cyflogwyr***

**15) Tendrau**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a gymerwyd ganddo ef ac a gadarnhawyd gan y Cadeirydd ynghylch cymeradwyo tendrau.  Esboniodd fod yr adroddiad yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol am y tendrau a ddaeth i law ar gyfer y 'System Rheoli Citiau Tân' a'r 'System Gyfrifiadurol Adnoddau Dynol/Hyfforddiant'.  Roedd y ddau dendr a gytunwyd o fewn y ddarpariaeth yn y gyllideb a'r rheini oedd y rhai rhataf a gyflwynwyd yn ôl y fanyleb.  Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cadarnhau'r camau a ddirprwywyd i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn derbyn y ddau dendr***

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40 y prynhawn

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u>     **Dyddiedig:** <u>20 Medi, 2004</u>